OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1316 (Cy. 265)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Rhagfyr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *15 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(3) a (6), 46(4), 93 a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2023.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1**

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â gwarediad trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny **[**[F1]ond cyn 1 Ebrill 2024**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 2 wedi eu mewnosod (1.4.2024) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/367), rhlau. 1, **4**

(**1**) 2017 dccc 3.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1**

**Cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi**

**3.** Rhagnodir y cyfraddau a ganlyn yn unol ag adrannau 14(3) a (6), a 46(4), o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn y drefn honno—

(a) y gyfradd safonol yw £102.10 y dunnell,

(b) y gyfradd is yw £3.25 y dunnell, ac

(c) y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £153.15 y dunnell.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1**

**Diwygio Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021**

**4.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021(**2**), ar ôl "1 Ebrill 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Ebrill 2023".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1**

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

13 Rhagfyr 2022

(**2**) O.S. 2021/1470 (Cy. 377).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny.

Y gyfradd safonol yw £102.10 y dunnell, y gyfradd is yw £3.25 y dunnell a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £153.15 y dunnell.

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2022 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2023 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/1470 (Cy. 377)) o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022.